**MONMOUTHSHIRE COUNTY COUNCIL**

**Minutes of the meeting of Pwyllgor Llywodraethu ac Awdit held at Neuadd Y Sir, Y Rhadyr, Brynbuga, NP15 1GA on Dydd Iau, 26ain Ionawr, 2023 at 2.00 pm**

**PRESENT:** Andrew Blackmore (Chairman)
County Councillor Peter Strong (Vice Chairman)

Lay Members: C. Prosser, M. Veale and R. Guest

County Councillor: Ian Chandler, John Crook, Tony Easson, Malcolm Lane, Phil Murphy, Peter Strong and Laura Wright

**OFFICERS IN ATTENDANCE:**

| | |
|---|---|
| Andrew Wathan | Prif Archwilydd Mewnol |
| Peter Davies | Prif Swyddog, Adnoddau |
| Wendy Barnard | Swyddog Gwasanaethau Democrataidd |
| Richard Jones | Rheolwr Perfformiad |
| Jonathan Davies | Rheolwr Cyllid Cyfrifeg Canolog |
| Rachel Freitag | Swyddog Archwilio Cymru |
| Kathy Buckley | Chief Information Security Officer |
| Sian Hayward | Rheolwr Digidol a Thechnegol |

**APOLOGIES:**

County Councillors Tony Kear

1. **Datganiadau o Fuddiant**

Eitemau 6/7: Cronfa Eglwys Cymru/Ymddiriedolaeth Gwaddol Fferm Ysgol Sir Fynwy a'r ISA260 - Roedd Martin Veale wedi datgan buddiant na sydd yn rhagfarnu fel Llywodraethwr Coleg Gwent (Coleg Amaethyddol Brynbuga gynt), a hynny ar gyfer Ymddiriedolaeth Gwaddol Fferm Ysgol Sir Fynwy.

2. **Fforwm Agored i'r Cyhoedd**

Nid oedd unrhyw aelodau o'r cyhoedd wedi datgan diddordeb i siarad.

3. **Nodi'r Rhestr o Gamau Gweithredu o'r cyfarfod blaenorol.**

Nodwyd y Rhestr Weithredu i'r cyfarfod blaenorol. Wrth wneud hyn, nodwyd y pwyntiau canlynol:

1. Cydweithrediadau Allweddol:
    - 1(a) AR GAU. Gweler Eitem Agenda 5.
    - 1(b) AR AGOR. Mae'r Tîm Archwilio Mewnol yn cynnal archwiliad o'r trefniadau llywodraethu ac yn adrodd nôl i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Awdit maes o law.
2. Croesgyfeirio adroddiadau gyda'r Cylch Gorchwyl: AR GAU. Gweler Eitem Agenda 8.

**MONMOUTHSHIRE COUNTY COUNCIL**

**Minutes of the meeting of Pwyllgor Llywodraethu ac Awdit held at Neuadd Y Sir, Y Rhadyr, Brynbuga, NP15 1GA on Dydd Iau, 26ain Ionawr, 2023 at 2.00 pm**

3. Datganiad o Gyfrifon CSF (terfynol): AR AGOR. Eitemau wedi eu gohirio oddi ar yr agenda. Roedd y Pennaeth Cyllid wedi darparu diweddariad bod cynlluniau i gyflwyno'r cyfrifon terfynol i'r cyfarfod hwn wedi datblygu'n dda cyn y Nadolig, ond roedd cyllideb 2023/24 a materion pwysig eraill, wedi achosi oedi. Mae un ymholiad gan Archwilio Cymru angen ei ateb a dylai'r papurau fod yn barod erbyn y cyfarfod nesaf. Cadarnhawyd fod nifer o Awdurdodau eraill yng Nghymru a Lloegr heb gwrdd â'r terfynau amser yma. Atgoffwyd y Pwyllgor o'r materion cenedlaethol sydd wedi arwain at oedi.

   Esboniwyd fod y dyddiad cau o 31ain Gorffennaf 2022 wedi ei newid i'r 30ain Tachwedd 2022 ac yna'r 31ain Ionawr 2023 (dyddiadau cau disgresiynol). Nid oes unrhyw ganlyniadau yn deillio o fethu â chwrdd â'r dyddiadau cau disgresiynol). Derbyniwyd y dylai papur sydd yn esbonio'r oedi gael ei gyflwyno i'r cyfarfod hwn. Roedd Swyddog Archwilio Cymru wedi cadarnhau mai'r dyddiad statudol yw'r 31ain Gorffennaf 2022. Roedd dyddiadau cau Tachwedd ac Ionawr yn ddisgwyliadau.

4. Gwrthlwgrwobrwyaeth, Twyll a Llygredd: O ran y cwestiwn a ofynnwyd am wirio aelodau allweddol o staff, roedd y Dirprwy Brif Weithredwr wedi derbyn cyngor gan y Swyddog Monitro/Prif Swyddog Pobl a Llywodraethu a chyfreithiwr cyflogaeth er mwyn asesu'r risgiau, y mesurau rheoli sydd yn eu lle ac ystyried hanes twyll yn yr Awdurdod. Gan nad oes yna dwyll ac ychydig iawn o swyddi sydd yn trin a'n trafod arian parod, nid oes yna fudd net o wirio'r staff allweddol. Cam Gweithredu: AR GAU
5. Barn Archwilio Mewnol Anffafriol: Rhannwyd e-bost ag Aelodau o'r Pwyllgor Llywodraethu ac Awdit. Cam Gweithredu: AR GAU

## 4. Adroddiad Cydweithredu a Phartneriaeth

Roedd y Rheolwr Perfformiad a Dealltwriaeth data wedi rhoi cyflwyniad ar y Cydweithrediadau a Phartneriaethau allweddol. Yn dilyn cyflwyniad o'r adroddiad, gofynnwyd am unrhyw gwestiynau.

Roedd Aelodau sydd wedi gofyn am wybodaeth y tu hwnt i gylch gorchwyl y Pwyllgor Llywodraethu ac Awdit, a hynny am Grŵp Llywio'r Comisiwn Burns, Ymwelwyr Iechyd a Dechrau'n Deg, a Chyfleuster Iechyd a Gofal Cymdeithasol Monnow Vale, sydd oll wedi eu cyfeirio at y Prif Swyddogion perthnasol.

Roedd Aelod wedi gofyn am sicrwydd bod yna drefniadau llywodraethu, archwilio ac adrodd cadarn ar gael ar gyfer cyllidebau cyfun. Esboniwyd fod swyddogion arweiniol yn cael eu clustnodi ar gyfer pob prosiect cydweithredol ar y rhestr er mwyn cymryd cyfrifoldeb er mwyn sicrhau bod trefniadau yn eu lle. Mae Archwilio Mewnol yn asesu sampl o'r rhestr er mwyn gwirio effeithiolrwydd a'n nodi'r themâu allweddol. Mae'r gwaith hwn yn barhaus, yn seiliedig ar samplau yn unig a bydd yn cael ei adrodd maes o law.

Roedd Aelod wedi gofyn a oedd yna fodelau neu dempledi ar gyfer trefniadau llywodraethu sydd yn cael eu gweithredu ar gyfer partneriaethau / prosiectau cydweithredol a gofynnwyd sut y mae penderfynu pa Awdurdod sydd yn arwain ac a oes yna gyfarwyddyd ar gyfer sicrhau bod cyllid yn gymesur. Esboniodd y Dirprwy Brif Weithredwr fod yr holl gyrff cyhoeddus yn mynd i fod yn ystyried yn agos y budd a ddaw o gydweithredu a'r gallu i sicrhau'r canlyniadau allweddol yn yr hinsawdd economaidd bresennol. Mae'r Awdurdod sydd yn arwain yn cael ei gadarnhau fel rhan o drafodaethau fesul achos, gan ystyried a yw'r cydweithredu yn mynd i elwa pob un Awdurdod. Bydd y rhestr a'r gwaith archwilio parhaus yn cynnig gwersi er mwyn datblygu practis yn y dyfodol ar gyfer trefniadau newydd a hen.

Fel yr awgrymwyd gan Aelodau, cytunwyd y dylid ychwanegu teitl swydd y person sydd wedi ei glustnodi ar gyfer pob prosiect cydweithredol, fel ei fod yn fwy hawdd i ddeall y cydweithredu yn y strwythur llywodraethu mewnol.

Gofynnodd Aelod ein bod yn ychwanegu natur rôl yr Awdurdod i'r rhestr (aelod o'r grŵp, partner, aelodau bwrdd, yn arwain ayyb) a gwybodaeth hefyd ar y Pwyllgor Craffu mwyaf priodol gydag atebolrwydd am oruchwylio'r trefniadau er mwyn cadarnhau a yw'r canlyniadau a ddisgwylir yn cael eu sicrhau, gan dderbyn y bydd rhai meysydd yn gorgyffwrdd gyda'i gilydd.

Roedd y Cadeirydd wedi croesawu'r gwaith hwn fel y cam cyntaf yn deall sut y mae partneriaethau a chydweithrediadau yn gweddu i strwythur llywodraethu'r Awdurdod, sut y maent yn cael eu craffu a rôl y Pwyllgor Llywodraethu ac Awdit; y cam nesaf yw deall ac asesu yn fwy llawn beth yw trefniadau llywodraethu craidd yr Awdurdod fel sydd wedi ei grynhoi yn y Cyfansoddiad.

Fel sydd wedi ei argymell yn yr adroddiad, roedd y Pwyllgor Llywodraethu ac Awdit wedi nodi'r partneriaethau a'r cydweithrediadau 'allweddol' fel sydd wedi eu nodi ac unrhyw adborth sydd wedi ei gynnig. Bydd y Pwyllgor Llywodraethu ac Awdit yn ychwanegu adroddiad at y Blaenraglen Waith sydd yn seiliedig ar drefniadau partneriaethau a chydweithredu, gyda manylion pellach am drefniadau llywodraethu, adrodd a chyllid fel sydd yn cael ei lywio gan y canfyddiadau cychwynnol a nodwyd drwy'r adolygiad Archwilio Mewnol.

5. **<u>Cronfa'r Eglwys yng Nghymru/Ymddiriedolaeth Gwaddol Ysgol Fferm Sir Fynwy 2021/22 - Terfynol</u>**

Roedd y Pennaeth Cyllid wedi cyflwyno'r Datganiad o Gyfrifon Archwiliedig ar gyfer 2021/22 – Adroddiad Cronfeydd Ymddiriedolaeth Elusennol. Cyflwynwyd yr eitem ganlynol, sef ISA 260 neu'r cyfatebol ar gyfer Cronfeydd Ymddiriedolaeth, gan y Swyddog Archwilio Cymru. Ystyriwyd yr eitemau gyda'i gilydd. Atgoffwyd y Pwyllgor fod yna archwiliad llawn ar gyfer Cronfa yr Eglwys yng Nghymru ac asesiad annibynnol o Ymddiriedolaeth Gwaddol Ysgol Fferm Sir Fynwy. Cynigiwyd bod barn ddiamod yn cael ei chynnig ar gyfer y ddwy gronfa.

Wedi cyflwyniad am yr adroddiad Cronfa yr Eglwys yng Nghymru, gofynnwyd i Aelodau a oedd unrhyw gwestiynau ganddynt.

**Cronfa yr Eglwys yng Nghymru:**

Gofynnodd Aelod a fyddai'n rhatach i drefnu adolygiad annibynnol yn yr hinsawdd ariannol bresennol, yn hytrach na dibynnu ar wasanaethau Archwilio Cymru. Ymatebodd y Pennaeth Cyllid fod cyfrifoldebau gan yr Awdurdod fel gwarcheidwad Cronfa yr Eglwys yng Nghymru. Mae'r Pwyllgor wedi ystyried y pwynt hwn yn flaenorol ac wedi dod i'r casgliad y dylid cynnal y trefniadau presennol fel bod modd cynnig sicrwydd digonol i'r cyrff sydd yn aelodau o'r gronfa gyfun.

Cytunodd Aelod gyda'r ffordd hon o weithio gan fod sawl Awdurdod yn dibynnu ar y Gronfa am arian er mwyn rhannu hyn gydag elusennau a mudiadau haeddiannol. Mae'r trefniadau archwilio presennol i'w croesawu.

Roedd Aelod wedi gofyn a sut y mae'r arian yn cael ei glustnodi a phwy sy'n derbyn yr arian a gofynnwyd am eglurder am y lefelau presennol o dryloywder. Esboniodd y Pennaeth Cyllid fod

aelodau a chylch gorchwyl Pwyllgor Cronfa'r Eglwys yng Nghymru ar gael ar wefan CSF. Roedd yna newid yn y broses o wneud penderfyniadau yn ystod 2022/23. Roedd adroddiad am y Grantiau sydd wedi eu dyfarnu wedi ei ddilysu gan y Cabinet ond mae'r swyddogaeth hon nawr yn cael ei chwblhau gan Benderfyniad Aelod Cabinet Unigol. Mae mecanwaith gwahanol gan bob un Awdurdod ar gyfer dyfarnu grantiau. Mae modd sicrhau bod manylion am y grantiau sydd wedi eu dyfarnu gan bob Awdurdod yn cael eu cyhoeddi os oes angen. Nid yw'r manylion yn cael eu cyhoeddi yn y cyfrifon gan fod ceisiadau yn cael eu cyflwyno weithiau gan unigolion sydd yn cael eu henwi. Os nad yw dyraniad blynyddol yn cael ei wario'n llwyr, mae modd ei drosglwyddo i'r flwyddyn ddilynol.

Hoffai Aelod ei gwneud yn gwbl eglur bod pob Awdurdod yn meddu ar ei Bwyllgor a'i weithdrefnau ei hun.

Wrth ymateb i gwestiwn, cadarnhawyd fod pob Awdurdod yn cyfeirio at Gronfa'r Eglwys yng Nghymru ar ei wefan gyda manylion am gymhwystra a'r broses gais. Bydd ystyriaeth yn cael ei rhoi i ddatgelu'r mathau o grantiau sydd yn cael eu dyfarnu yng nghyfrifon Cronfa'r Eglwys yng Nghymru.

Wrth ystyried y set blynyddol nesaf o gyfrifon ar gyfer Cronfa yr Eglwys yng Nghymru, roedd y Cadeirydd wedi mynegi'r farn y dylai'r Ymddireiolwyr gadarnhau wrth y Pwyllgor Llywodraethu ac Awdit fod grantiau wedi eu dyfarnu yn unol gyda rheolau'r Ymddiriedolaeth.

Fel sydd wedi ei nodi yn argymhellion yr adroddiad, roedd y datganiad cyfrifon sydd wedi eu harchwilio ar gyfer 2021/22 ar gyfer Cronfa Deddf yr Eglwys yng Nghymru, wedi ei gymeradwyo yn unol gydag adroddiad Archwiliad o Gyfrifon ISA260 Archwilio Cymru ar gyfer Cronfa Deddf yr Eglwys yng Nghymru.

Roedd y Cadeirydd wedi arwyddo'r llythyr a oedd yn cynrychioli gweddill y Pwyllgor.

Wedi cyflwyniad am yr adroddiad Ymddiriedolaeth Gwaddol Ysgol Fferm Sir Fynwy, gofynnwyd i Aelodau a oedd unrhyw gwestiynau ganddynt.

**Ymddiriedolaeth Gwaddol Ysgol Fferm Sir Fynwy**

Roedd Aelod o Bwyllgor Ymddiriedolaeth Gwaddol Ysgol Fferm Sir Fynwy wedi darparu adborth bod y cyfrifon wedi eu hadolygu gan y Pwyllgor, gan nodi fod eitem o ddyled wedi ei ad-dalu'n llwyr.

Eglurodd Swyddog Archwilio Cymru fod yr Archwilydd Cyffredinol yn dilysu'r cyfrifon ar ôl iddynt gael eu cymeradwyo.

Roedd Aelod wedi nodi fod hon yn gronfa fach, yn rhan o ystâd Coleg Gwent a gofynnwyd pam ei bod yn cael ei gweithredu'n annibynnol o hyn a gofynnwyd a oedd y manteision i fuddiolwyr yn cyfiawnhau'r elfen weinyddol. Esboniwyd fod ceisiadau yn cael eu derbyn gan fyfyrwyr e.e. y rhai sydd yn dechrau eu cyrsiau ac o bosib angen gliniadur, cyfarpar ar gyfer y ceffylau neu lif gadwyn. Mae symiau penodol yn cael eu defnyddio, sef traean o'r hyn sydd yn cael ei hawlio. Mae yna swm penodol o gronfeydd ar gael bob blwyddyn ac nid oes modd dyfarnu mwy na hyn, ac mae'n cael ei wario'n llwyr fel arfer. Mae cynrychiolwyr o Goleg Gwent yn mynychu cyfarfodydd.

Roedd Aelod wedi gofyn am eglurder ar y cyfyngiadau ar wariant gan nodi fod yna swm sylweddol o arian dros ben wedi ei symud ymlaen. Esboniwyd fod y gwariant yn ddibynnol ar y

nifer o geisiadau ac roedd y cyfnod dan sylw dal wedi ei effeithio gan gyfyngiadau Covid, ac felly, roedd y nifer wedi gostwng. Mae ceisiadau eleni wedi dychwelyd i'r lefel arferol.

Fel sydd wedi ei nodi yn argymhellion yr adroddiad, roedd y datganiadau ariannol a archwiliwyd yn annibynnol ar gyfer Ymddiriedolaeth Gwaddol Ysgol Fferm Sir Fynwy 2021/22 wedi eu cymeradwyo ar y cyd gyda'r Adroddiad Asesiad Annibynnol ar gyfer Ymddiriedolaeth Gwaddol Ysgol Fferm Sir Fynwy.

## 6. ISA260 neu'r safon cyfatebol ar gyfer Cronfeydd Ymddiriedolaeth

Ystyriwyd yr eitem hon ar yr un pryd â'r eitem flaenorol.

## 7. Adolygiad o Gylch Gorchwyl y Pwyllgor a'i gysondeb gyda'r Cynllun Awdit

Roedd y Prif Archwilydd Mewnol wedi cyflwyno adroddiad ar Raglen Waith y Pwyllgor Llywodraethu ac Awdit, yn unol gyda'i Gylch Gorchwyl. Wedi cyflwyno'r adroddiad, gofynnwyd i Aelodau a oedd unrhyw gwestiynau ganddynt:

Roedd Aelodau wedi rhoi diolch i'r Prif Archwilydd Mewnol am ei adroddiad ac wedi ffafrio'r fersiwn yn Atodiad 2. Cytunwyd fod dyddiadau'r cyfarfod wedi eu cytuno gan y Cyngor yn ei gyfarfod diwethaf.

Yn unol ag argymhellion yr adroddiad, roedd y Pwyllgor Llywodraethu ac Awdit wedi cymeradwyo'r fformat newydd arfaethedig ar gyfer Blaenraglen Waith y Pwyllgor Llywodraethu ac Awdit sydd yn gyson gyda'i Gylch Gorchwyl.

## 8. Blaenraglen Waith y Pwyllgor Llywodraethu ac Awdit

Nodwyd Blaenraglen Waith y Pwyllgor Llywodraethu ac Awdit.

Ychwanegwyd yr eitemau canlynol:

- Goblygiadau sydd yn dod o'r cynnig i ddileu'r rôl Uwch Archwilydd o'r strwythur er mwyn arbed arian yn y gyllideb.
- Adroddiad Ch3 Archwiliad Mewnol i'w symud i agenda mis Mawrth o fis Chwefror

Cytunwyd i adolygu'r nifer/eitemau blaenoriaeth ar gyfer agenda Chwefror a Mawrth er mwyn taro cydbwysedd priodol.

## 9. Cadarnhau cofnodion y cyfarfod blaenorol

Cadarnhawyd fod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 24ain Tachwedd yn gofnodion cywir.

**MONMOUTHSHIRE COUNTY COUNCIL**

**Minutes of the meeting of Pwyllgor Llywodraethu ac Awdit held at Neuadd Y Sir, Y Rhadyr, Brynbuga, NP15 1GA on Dydd Iau, 26ain Ionawr, 2023 at 2.00 pm**

**10. Nodi dyddiad y cyfarfod nesaf fel 16eg Chwefror 2023 am 2.00pm**

**11. Ystyried a ddylid gwahardd y wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod tra'n ystyried yr eitemau canlynol o fusnes yn unol ag Adran 100A o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972, fel y'i diwygir, gan fod hyn yn cynnwys y wybodaeth fel sydd wedi ei diffinio ym Mharagraff 14 o Ran 4 o Atodlen 12A i'r Ddeddf (barn y swyddog priodol wedi ei hatodi)**

Cytunodd y Pwyllgor i wahardd y wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod tra'n ystyried yr eitemau canlynol o fusnes yn unol ag Adran 100A o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972, fel y'i diwygir, gan fod hyn yn cynnwys y wybodaeth fel sydd wedi ei diffinio ym Mharagraff 14 o Ran 4 o Atodlen 12A i'r Ddeddf. Nodwyd Barn y Swyddog Priodol.

**12. Adroddiad Seibr-ddiogelwch**

Roedd y Pennaeth Digidol a'r Prif Swyddog Diogelwch Gwybodaeth wedi cyflwyno adroddiad ar Seibr-ddiogelwch. Roedd adroddiad Archwilio Cymru "Dysgu o'r ymosodiadau seibr" hefyd wedi ei ystyried. Rhoddwyd cyfle i Aelodau i ofyn cwestiynau ar ôl gwrando ar y cyflwyniad.

Roedd y cwestiynau wedi ymdrin â:

- Cynllunio Parhad Busnes
- Cydweithio gyda SRS, craffu'r trefniadau llywodraethu ac adrodd nôl i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Awdit
- Hyfforddi Staff

Ymosodiadau seibr ac ataliaeth

**Meeting ended at 3.55 pm**